**Dinas a Sir Abertawe**

# Cofnodion Cyfarfod y Pwyllgor Trwyddedu Cyffredinol

**O bell drwy Microsoft Teams**

**Dydd Gwener, 12 Mawrth 2021 am 10.00am**

**Yn bresennol**: Y Cynghorydd P M Matthews (Cadeirydd) fu'n llywyddu

| **Y Cynghorwyr** | **Y Cynghorwyr** | **Y Cynghorwyr** |
|---|---|---|
| C Anderson | J P Curtice | P Downing |
| S J Gallagher | P Lloyd | H M Morris |
| C L Philpott | B J Rowlands | L G Thomas |
| L V Walton | | |

**Swyddogion**

| | |
|---|---|
| Lynda Anthony | Rheolwr Trwyddedu, Bwyd a Diogelwch |
| Richard Jenkins | Swyddog Trwyddedu |
| Samantha Woon | Swyddog Gwasanaethau Democrataidd |
| Craig Davies | Cyfreithiwr |

**Ymddiheuriadau am absenoldeb**
Y Cynghorydd/wyr: N J Davies

---

## 20 Datgeliadau o fuddiannau personol a rhagfarnol

Yn unol â'r Côd Ymddygiad a fabwysiadwyd gan Ddinas a Sir Abertawe, ni ddatganwyd unrhyw fuddiannau.

## 21 Cofnodion:

**Penderfynwyd** cytuno bod cofnodion y Pwyllgor Trwyddedu Cyffredinol a gynhaliwyd ar 12 Chwefror 2021 yn gofnod cywir.

## 22 Gwahardd y Cyhoedd

Gofynnwyd i'r Pwyllgor wahardd y cyhoedd o'r cyfarfod er mwyn iddo ystyried yr eitemau busnes a nodwyd yn argymhellion yr adroddiad ar y sail eu bod yn debygol o ddatgelu gwybodaeth eithriedig fel a nodir ym mharagraff gwahardd 12A Deddf Llywodraeth Leol 1972 fel y'i diwygiwyd gan Orchymyn Llywodraeth Leol (Mynediad i

Wybodaeth) (Amrywiad) (Cymru) 2007 mewn perthynas ag eitemau busnes a nodir yn yr adroddiad.

Ystyriodd y pwyllgor Brawf Budd y Cyhoedd wrth benderfynu a ddylid gwahardd y cyhoedd o'r cyfarfod ar gyfer yr eitemau busnes lle'r oedd Prawf Budd y Cyhoedd yn berthnasol fel a nodir yn yr adroddiad.

**Penderfynwyd** gwahardd y cyhoedd ar gyfer yr eitemau busnes canlynol.

**(Sesiwn Gaeëdig)**

## 23 Deddf Cyfrifoldebau Heddluoedd Trefol 1847 a Deddf Llywodraeth Leol (Darpariaethau Amrywiol) 1976 – Trwydded i Yrru Cerbydau Hacni a Cherbydau Hurio Preifat – LPW.

Manylodd y Rheolwr Trwyddedu, Bwyd a Diogelwch ar yr wybodaeth gefndir mewn perthynas â LPW.

Gofynnodd yr aelodau gwestiynau i'r swyddog a ymatebodd yn briodol.

Esboniodd LPW, yng nghwmni PW, cynrychiolydd cyfreithiol, y sefyllfa mewn perthynas â'r collfarnau ac atebodd gwestiynau'r aelodau.

**Penderfynwyd ar y canlynol:**

1. Cyhoeddir llythyr rhybuddio wedi'i eirio'n gryf i LPW ynghylch ymddygiad yn y dyfodol.
2. Adnewyddu Trwyddedau Cerbyd Hacni a Hurio Preifat LPW.

## 24 Deddf Cyfrifoldebau Heddluoedd Trefol 1847 a Deddf Llywodraeth Leol (Darpariaethau Amrywiol) 1976 – Trwydded i Yrru Cerbydau Hacni a Cherbydau Hurio Preifat – VM.

Dywedodd y Rheolwr Trwyddedu, Bwyd a Diogelwch fod VM wedi gofyn am ohiriad pellach er mwyn sicrhau cynrychiolaeth gyfreithiol.  Yn ogystal, roedd VM am gyflwyno gwybodaeth ychwanegol gan yr Heddlu i gefnogi ei fater a allai gymryd hyd at 28 niwrnod i gyrraedd gan yr Heddlu.

**Penderfynwyd** y dylid gohirio'r mater tan gyfarfod mis Ebrill ac y gellir gwrthod unrhyw geisiadau pellach am ohirio.

Daeth y cyfarfod i ben am 11.14am

**Cadeirydd**